**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 25 Ionawr 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | C Richards |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner, D Phillips a/ac K M Roberts
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Andrew Davies

---

## 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 17 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 18 Diweddariadau Cynllun Gwaith. (Llafar) (Cadeirydd)

Rhoddodd y Cadeirydd sawl diweddariad i'r pwyllgor mewn perthynas â'r canlynol: -

- Polisi Tegwch Gwyrdd (PTG) - Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn trafod cynnwys y PTG fel adran mewn Polisi Coed Corfforaethol newydd, gydag Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd. Cyflwynir adroddiad cynnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Polisi Credyd Fforddiadwy - Roedd cynnydd yn araf oherwydd pwysau gwaith a gobeithiwyd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei ddarparu'n fuan.

- Polisi Dyledion Corfforaethol - roedd Julian Morgans, Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi hysbysu'r Cadeirydd nad fu unrhyw effaith ar incwm, ond bod ôl-ddyledion wedi cynyddu. Derbyniwyd gwell ymateb gan y llythyr 'mwy cyfeillgar' ac roedd cyfranogiad wedi cynyddu. Roedd llythyrau atgoffa'n cael eu dosbarthu, roedd Cyngor ar Bopeth wedi cael mwy o atgyfeiriadau a chafwyd cynnydd yn nifer yr hawliadau Gostyngiad Person Sengl. Byddai perchnogion ail gartrefi'n talu premiymau 100% o 1 Ebrill 2021.

  Cynigiwyd y bydd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau'n darparu adroddiad diweddaru ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol - Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal mewn cyfarfod o'r gweithgor er mwyn cael eglurder ynghylch y sefyllfa bresennol. Trafododd y pwyllgor y ddyletswydd yn fanylach a'r goblygiadau i'r cyngor a phreswylwyr

- Hawlio Budd-daliadau - byddai cyflwyniad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 22 Chwefror 2021.

- Cludiant Cymunedol - Daeth yr ymgynghoriad ynghylch y strategaeth newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i ben ar 25 Ionawr 2021. Trafododd y pwyllgor effaith bosib y strategaeth ar gymunedau a chwmnïau Nodwyd bod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd (PDP) yn ystyried datblygu Polisi Trafnidiaeth Gynaliadwy ac y byddai'r Cadeirydd yn gofyn i'r PDP ystyried cynnwys Cludiant Cymunedol yn y polisi.

- Polisi Credyd Fforddiadwy - roedd y polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy bron yn barod i'w ddosbarthu i ymgynghori arno.

**Penderfynwyd:** -

1) y bydd cynnwys yr adroddiad a'r diweddariad yn cael eu nodi;
2) y darperir cyflwyniad ar y nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd, sef 22 Chwefror 2021;
3) y bydd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau yn darparu adroddiad diweddaru mewn cyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â'r Polisi Dyled Corfforaethol

Daeth y cyfarfod I ben am 4.10 pm

**Cadeirydd**